**S4C – Archif a Chyfleu Cynnwys**

**Ceisiadau am Ddeunydd – Egwyddorion: Gweithdrefnau ac Arweiniad ar Glirio Hawliau**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen yma'n nodi'r egwyddorion, gofynion a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol wrth ofyn am ddeunydd archif, clipiau neu gynnwys rhaglenni gan S4C i'w defnyddio mewn cynyrchiadau, prosiectau, dangosiadau, gweithgareddau addysgol neu ddibenion eraill.

Mae pob defnyddiwr o gynnwys S4C yn gyfrifol am sicrhau bod hawliau, caniatâd a thrwyddedau priodol yn cael eu sicrhau cyn defnyddio unrhyw ddeunydd.

## 2. Egwyddorion Craidd

Wrth ddefnyddio deunydd a gafwyd drwy Wasanaethau Archif a Chyflwyno Cynnwys S4C, mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol bob amser:

2.1 Clirio Hawliau

Pan fydd deunydd yn tarddu o raglen S4C, rhaid i chi:

- Cael caniatâd gan y perchennog hawliau perthnasol.
- Cytuno ar y cydnabyddiaethau a chredydau priodol.
- Talu unrhyw ffioedd trwydded neu ddefnydd perthnasol.

2.2 Hawliau Perfformwyr

Pan fydd deunydd yn cynnwys perfformiadau gan actorion, gerddorion neu gyfranwyr eraill, rhaid i chi:

- Gwirio a oes angen taliadau ychwanegol.
- Sicrhau bod pob taliad yn cael ei wneud yn unol â'r cytundebau perthnasol undebol / artistiaid.

2.3 Cofnodion Cynhyrchu

Rhaid i chi nodi a chofnodi'n glir darddiad yr holl ddeunydd a ddefnyddir yn eich dogfennaeth cynhyrchu (PAC), gan gynnwys a yw'r deunydd yn cynnwys:

- Perfformiadau;
- Cynnwys gan drydydd parti; neu
- Cynnwys rhaglen gyffredinol.
- Nid yw nodi'r ffynhonnell fel "S4C" yn unig yn ddigonol.

2.4 Cadw Gwybodaeth

Bydd yr Adran Archif a Chyflwyno Cynnwys yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cynnwys a ddarparwyd, gan gynnwys:

- Teitl y rhaglen;
- Rhif y cynhyrchiad;
- Cwmni cynhyrchu;
- Manylion darlledu; a
- Gwybodaeth am hawliau lle mae ar gael.

Dylai gynhyrchwyr gadw'r wybodaeth hon yn ddiogel i'w chyfeirio ati yn y dyfodol.
Mae S4C yn cadw cofnodion o'r fath am uchafswm o ddwy flynedd yn unig.

**3. Gwybodaeth sydd angen wrth ofyn am ddeunydd**

Er mwyn ein helpu i nodi a darparu'r deunydd mwyaf addas, darparwch y canlynol:

3.1 Gwybodaeth am y Cynnwys

- Cymaint o fanylion â phosibl am y deunydd sy'n cael ei geisio.
- Enwau, lleoliadau, cyfranwyr, dyddiadau neu deitlau rhaglenni perthnasol.

3.2 Defnydd arfaethedig

Dylai'r manylion gynnwys:

- Y cynhyrchiad y bydd y deunydd yn cael ei ddefnyddio ynddo;
- Y cyd-destun defnyddio arfaethedig; a
- Hyd bras y clip sydd ei hangen.

**4. Gwybodaeth a ddarperir gan S4C**

Pan dderbynnir cais, bydd S4C yn cael manylion am y cynhyrchiad a'r defnydd arfaethedig ac yn cadarnhau'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch y deunydd gwreiddiol, gan gynnwys:

- Teitl y rhaglen;
- Rhif y cynhyrchiad;
- Cwmni cynhyrchu; a
- Dyddiad darlledu gwreiddiol.
- Darparu unrhyw wybodaeth sydd ar gael ynghylch:
- Taliadau i berfformwyr;
- Gweithiau cerddorol;
- Deunyddiau trydydd parti.
- Tystiolaeth bod caniatâd wedi'i sicrhau cyn rhyddhau cynnwys archif neu gynnwys trydydd parti.
- Tynnu sylw at gyfyngiadau sy'n ymwneud â chynnwys chwaraeon lle bo hynny'n berthnasol.
- Darparu amserlen gwybodaeth am hawliau i gynorthwyo defnyddwyr i:
- Clirio hawliau;
- Sicrhau caniatâd; a
- Cofnodi'r defnydd.

**Dylai'r trwyddedai gadw'r ddogfennaeth hon gan na fydd S4C yn cadw copïau ond am ddwy flynedd.**

**5. Ffynonellau Gwybodaeth Ychwanegol**

Gellir gael mwy o wybodaeth ynghylch hawliau, trwyddedu a chytundebau diwydiant oddi wrth:

Telerau Masnach S4C http://www.s4c.co.uk/production/downloads/guidelines/c_ad_tel_mas.pdf
TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) - https://tac.cymru/home/
MCPS - www.mcps-prs-alliance.co.uk
PRS for Music - https://www.prsformusic.com/what-we-do
Equity - www.equity.org.uk
Phonographic Performance Limited (PPL) - www.ppluk.com
Writers' Guild - www.writersguild.org.uk
Musicians' Union - www.musiciansunion.org.uk

## 6. Deunydd i'w ddarlledu ar S4C

6.1 Deunydd o raglenni S4C

Pan mae deunydd yn dod o raglen S4C, rhaid i ddefnyddwyr:
- Cael y caniatâd angenrheidiol;
- Talu'r ffioedd perthnasol am y clipiau;
- Gwneud unrhyw daliadau gofynnol i berfformwyr;
- Sicrhau cliriad ar gyfer yr holl hawliau cerddoriaeth; a
- Chael hawliau sy'n ymwneud â deunydd trydydd parti, gan gynnwys:
  - Ffilmiau archif;
  - Ffotograffau;
  - Portreadau; a
  - Chynnwys arall sydd wedi'i ymgorffori.

Gall S4C godi ffi trosglwyddo am ddarparu'r deunydd.

6.2 Defnydd Hyrwyddo

Gall deunydd sy'n tarddu o raglenni sydd wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd i'w darlledu gan S4C, mewn rhai amgylchiadau, gymhwyso fel defnydd hyrwyddo lle:
- Cyfeirir at ddyddiad ac amser y darllediad; a
- Sicrheir cliriad ar gyfer yr hawliau cerddoriaeth berthnasol.
- Gall fod angen cliriad ar wahân ar gyfer unrhyw ddeunydd trydydd parti neu ddeunydd archif.

## 7. Deunydd ar gyfer Cynyrchiadau a Ddarlledir gan Ddarlledwyr Eraill

7.1 Rhaglenni a Drwyddedwyd i S4C

Pan fydd cynnwys yn deillio o raglen a drwyddedwyd i S4C, rhaid i ymgeiswyr gysylltu â deiliad yr hawliau yn uniongyrchol er mwyn:
- Cael clipiau;
- Sicrhau trwyddedau;
- Clirio hawliau perfformwyr;
- Clirio hawliau cerddoriaeth; a
- Sicrhau caniatâd yn ymwneud â deunydd trydydd parti.

7.2 Rhaglenni sydd â Hawlfraint S4C

Pan fydd yr hawlfraint yn eiddo i S4C:
- Rhaid cael trwydded drwy'r Adran Archif a Chyflwyno Cynnwys.
- Bydd ffioedd trwydded yn berthnasol.
- Rhaid clirio hawliau perfformwyr, cerddoriaeth a thrydydd parti yn ôl yr angen.
- Gellir godi ffioedd ymchwil a throsglwyddo.

Gall S4C hefyd ofyn am gopi o'r rhaglen orffenedig at ddibenion archifo a chyfeirio.

## 8. Prosiectau Masnachol, Addysgol a Chyfryngau Newydd

Mae'r adran hon yn berthnasol i:
- Prosiectau masnachol;
- Gweithgareddau marchnata a hyrwyddo;
- Cyfathrebiadau corfforaethol;
- Adnoddau addysgol a fwriedir ar gyfer eu dosbarthu'n ehangach;

- Cynyrchiadau amlgyfrwng; a
- Chynhyrchion dysgu ar-lein.

8.1 Cynnwys trwyddedig

Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â deiliad yr hawliau yn uniongyrchol pan fo rhaglen wedi'i thrwyddedu i S4C.

8.2 Cynnwys sydd â hawlfraint S4C

Pan fo'r hawlfraint yn eiddo i S4C:
- Rhaid cael trwydded drwy'r Adran Archif a Chyflwyno Cynnwys.
- Gellir godi ffioedd trwydded perthnasol.
- Rhaid sicrhau cliriad ar gyfer hawliau perfformwyr, cerddoriaeth a thrydydd parti.
- Gall ffioedd ymchwil a throsglwyddo fod yn berthnasol.

Gall S4C ofyn am gopi o'r prosiect terfynol.

## 9. Defnydd Addysgol ac Academaidd o Raglenni Cyflawn

Pan fo angen rhaglenni cyflawn ar gyfer:
- Sesiynau tiwtorial;
- Trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth;
- Astudiaeth academaidd; neu
- Defnydd addysgol cyfyngedig arall,

dylai ddefnyddwyr wirio argaeledd yn gyntaf drwy:
- S4C Clic
- BBC iPlayer
- Hwb

Os nad ydynt ar gael ac os oes gan y sefydliad addysgol drwydded ERA, gellir gwneud ceisiadau drwy Adran Cysylltiadau â Gwylwyr.

Cyswllt:
Ffôn: 0370 600 4141
E-bost: gwifren@s4c.cymru

Dim ond o fewn y sefydliad addysgol sy'n gwneud y cais y gellir defnyddio copïau a ddarperir o dan y trefniant hwn.
Gall S4C godi ffi weinyddol am ddarparu copïau digidol.

## 10. Dangosiadau Cyhoeddus yng Nghymru

Ystyrir ceisiadau i ddangos deunydd S4C yn gyhoeddus fesul achos.
Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr:
- Cael trwydded gan S4C;
- Talu ffioedd trwydded;
- Talu ffioedd trosglwyddo;
- Cael caniatâd cyfranwyr;
- Clirio hawliau perfformwyr;
- Clirio hawliau cerddoriaeth; a
- Clirio hawliau mewn unrhyw ddeunydd trydydd parti.

### Ffioedd Trwydded Dangos

Dangos Anfasnachol (Dim tâl mynediad)

| **Nifer Cynulleidfa** | **Ffi** |
|---|---|
| Dangosiad Sengl | £100 |
| Dros 200 | £200 |
| Dangosiad Masnachol | |

Dangosiad Masnachol (Codi tâl)

| **Nifer Cynulleidfa** | **Ffi** |
|---|---|
| Dangosiad Sengl | £200 neu 35% o'r elw |
| Dros 500 | £500 neu 35% o'r elw |

Dangosiad Addysgiadol

| **Nifer Cynulleidfa** | **Ffi** |
|---|---|
| Dangosiad Sengl | £100 |

### 11. Fideos Dangos (Showreels) a Phortffolios Proffesiynol

Mae'r adran hon yn berthnasol i actorion, cerddorion, gweithredwyr camera a chyfranwyr creadigol eraill sy'n llunio fideos dangos neu bortffolios. Dylai ymgeiswyr:

- Gysylltu â'r cwmni cynhyrchu gwreiddiol yn y lle cyntaf
- Gysylltu'n uniongyrchol â deiliad yr hawliau pan fo cynnwys wedi'i drwyddedu i S4C
- Sicrhau na fydd unrhyw ddeunydd sydd dan hawlfraint S4C
    - Yn cael ei ddarlledu;
    - Yn cael ei ryddhau i drydydd parti; ac
    - Yn cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol.

Pan na ellir bodloni'r amodau hyn, rhaid cael trwydded gan S4C a chael caniatâd ar gyfer yr holl hawliau angenrheidiol.

Gall ffioedd ymchwil, trosglwyddo a thrwyddedu fod yn berthnasol.

### 12. Gwylio Copïau o Raglenni Cyflawn

12.1 Rhaglenni sydd wedi'u trwyddedu i S4C

- Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â deiliad yr hawliau yn uniongyrchol.

12.2 Rhaglenni sydd ag hawlfraint S4C

- Nid yw S4C yn darparu copïau o raglenni cyflawn o ansawdd darlledu.
- Gellir darparu copïau o ansawdd gwylio, ac efallai y codir tâl amdanynt.
- Caiff ceisiadau am gopïau gwylio i gefnogi gwaith ymchwil eu hasesu'n unigol, a chodir tâl yn unol â hynny.
- Dulliau Mynediad Eraill

Gellir gwylio cynnwys S4C drwy gyfleusterau 'Clip Corner' Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
[Clip Corners - National Library of Wales]

### 13. Ceisiadau gan Aelodau o'r Cyhoedd

Yn gyffredinol, nid yw S4C yn darparu copïau o raglenni i aelodau o'r cyhoedd oherwydd cyfyngiadau hawliau a nifer y ceisiadau a dderbynnir. Mae llawer o raglenni yn parhau i fod ar gael drwy:

- S4C Clic
- BBC iPlayer

13.1 Ymgeiswyr Cymwys

Gellir ystyried ceisiadau gan:

- Perfformwyr cydnabyddedig;
- Awduron;
- Cyfranwyr;
- Gwesteion; a
- Staff cynhyrchu a enwir yn y rhaglen.

Yn arferol nid yw'r canlynol yn gymwys:

- Aelodau o gynulleidfa'r stiwdio;
- Unigolion sy'n ymddangos mewn golygfeydd torf yn unig.
- Aelodau o'r teulu sydd yn gwneud cais ar ran cyfranwyr cymwys

13.2 Rhaglenni sydd ddim ar gael

Ni ellir bodloni ceisiadau lle:

- Na chafodd y rhaglen ei darlledu gan S4C erioed;
- Nad yw'r rhaglen yn cael ei chadw yn Archif S4C; neu
- Nad S4C sy'n berchen ar yr hawliau.
- Mae Amodau Cyflenwi.

Ar ôl cael ei gymeradwyo, darperir copïau at ddibenion gwylio preifat yn y cartref yn unig.
Ni chaniateir copïo, golygu, cyhoeddi, dosbarthu, rhannu na defnyddio at ddibenion masnachol.

| **Adnodd** | **Ffi** |
|---|---|
| Ffeil Digidol MP4 (Rhaglen Sengl) | £87.50 + TAW |
| Copiau ychwanegol o'r gyfres | £47.50 + TAW y bennod |

Darperir copïau fel ffeiliau MP4 digidol yn unig.

### 14. Trefniadau Archif BBC Cymru ac ITV Cymru

Mae arweiniad ychwanegol ynghylch mynediad at archifau BBC Cymru ac ITV Cymru ar gael drwy ddogfennau arweiniad archif S4C.

### 15. Cysylltiadau Defnyddiol

| | |
|---|---|
| S4C – Archif a Chyfleu Cynnwys | E-bost: allinlibrary@s4c.co.uk |
| Archif BBC Cymru | E-bost: bbccymruwalesarchive@bbc.co.uk |
| Archif ITV Cymru | E-bost: owain.meredith@itvwales.com |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | E-bost: nssaw@llgc.org.uk / Ffôn: 01970 632 828 |

**16. Adnoddau Eraill**

Gellir cael rhagor o ganllawiau gan:

FOCAL International - https://focalint.org/footage-and-content-finder

Côd Darlledu Ofcom https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/132073/Broadcast-Code-Full.pdf

Copyright User https://www.copyrightuser.org/https://www.copyrightuser.org/faqs/